# Cynnal systemau draenio tir

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn cynnal systemau draenio tir.

Byddai'r gweithgareddau arferol y byddech yn eu gwneud yn cynnwys archwilio systemau draenio tir ac adnabod ac ymdrin â rhwystrau a gollyngiadau.

Os ydych yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad perthnasol yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol a gwella ei werth o ran cadwraeth a hamdden.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â chynnal systemau draenio tir
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3. archwilio ac adrodd ar gyflwr systemau draenio tir yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt
4. dewis, paratoi, defnyddio, glanhau, cynnal a chadw a storio offer a pheiriannau ar gyfer cynnal systemau draenio tir yn ddiogel ac yn gywir
5. cynnal systemau draenio tir a'u hadfer i'w gallu llawn yn ddiogel ac yn gywir
6. lleihau niwed i wasanaethau a'r ardaloedd cyfagos tra'n cynnal y systemau draenio tir
7. cynnal cysylltiadau gwaith gyda phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
8. parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
9. cofnodi arolygiadau a gwaith a wnaed yn gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau
10. adfer y safle i gyflwr priodol ar ôl cynnal y systemau draenio tir
11. prosesu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir yn unol â gofynion cyfreithiol a manylebau perthnasol
12. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi peryglon ac asesu risg sydd yn gysylltiedig â chynnal systemau draenio tir
2. y mathau o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. sut i ddewis, paratoi, defnyddio, glanhau, cynnal a chadw a storio offer a pheiriannau ar gyfer cynnal systemau draenio tir yn ddiogel ac yn gywir
4. sut i gynnal arolygiadau o systemau draenio tir
5. pwysigrwydd arolygu systemau draenio tir yn gyson
6. y mathau o broblemau sy’n debygol o ddigwydd gyda systemau draenio tir
7. sut i adnabod draeniad wedi ei rwystro, ei achosion a’r dulliau o’i gywiro
8. y ffactorau sy’n effeithio ar gyfraddau llif mewn draeniau
9. pwysigrwydd systemau draenio tir sydd yn gweithio’n effeithlon ac yn gywir
10. egwyddorion dyluniad draenio tir
11. pam y mae’n bwysig cadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn daclus
12. sut i leihau niwed sy’n debygol o ddigwydd i wasanaethau ac ardaloedd cyfagos tra’n cynnal systemau draenio tir
13. sut i drin, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
14. pam y mae’n bwysig cwblhau gwaith yn unol â’r amserlen y cytunwyd arni

15.
y cofnodion y mae'n rhaid eu cwblhau a'u cadw a pham
16.
pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn
17.
pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol i helpu i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
18.
eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol perthnasol

## Cwmpas/Ystod

A. cynnal a dilyn mathau o systemau draenio tir:
1. piben solet
2. teils
3. agored
4. piben dyllog
5. systemau draenio cynaliadwy

B. trin y mathau canlynol o broblemau:
1. rhwystrau
2. gollyngiadau

C. defnyddio’r mathau canlynol o offer a chyfarpar:
1. offer llaw
2. offer wedi eu pweru

## Geirfa

Cyfarwyddiadau: llafar neu ysgrifenedig

Manylebau: darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GGS), canllawiau cynhyrchwyr, gofynion cwsmeriaid, polisïau sefydliadol.

LANH32

Cynnal systemau draenio tir

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANL15; LANL21 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Garddwr, Gofalwr Tir, Tirluniwr, Gweithiwr Ystadau, Gweithiwr Fferm Cyffredinol, Ceidwad Gwyrdd |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu Cnydau Amaethyddol, Garddwriaeth, Cadwraeth Amgylcheddol, Cynhyrchu Anifeiliaid Fferm |
| **Geiriau Allweddol** | draen; piben; dŵr |